# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## ReAct a ProAct
Ionawr 2011

Mae'r papur yn cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni ReAct, ReAct II, ProAct a Sgiliau Twf Cymru. Rhaglen ariannu yw ReAct ar gyfer unigolion sy'n  wynebu'r posibilrwydd o golli'u swyddi .  Mae ProAct yn becyn o gefnogaeth ariannol i helpu busnesau sy'n economaidd hyfyw i wella sgiliau'r staff yn ystod cyfnodau tawel fel eu bod yn barod ar gyfer yr amser pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella. Mae ReAct II a Sgiliau Twf Cymru yn rhaglenni olynol i ReAct a ProAct.

Bwriedir i'r papur hwn fod yn ganllawiau polisi cyffredinol a dylai etholwyr gael cyngor yn unigol lle bo hynny'n angenrheidiol.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 10/2081

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# ReAct a ProAct

Ionawr 2011

Rachel O'Toole

Rhif dogfen: 11/005

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

# Cynnwys


1. ReAct ........ 1
2. ReAct: Unigolion ........ 2
3. ReAct: Cyflogwyr ........ 4
4. ReAct II ........ 6
5. ReAct: data ........ 6
6. ProAct ........ 10
7. ProAct – Sgiliau Twf Cymru ........ 12

# ReAct a ProAct

## 1. ReAct

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Diswyddiadau Llywodraeth Cymru (ReAct) ar ei ffurf bresennol ym mis Hydref 2008[1].

Mae'r cynllun yn rhoi arian i dalu am hyfforddiant i bobl sy'n wynebu'r posibilrwydd o golli'u swyddi. Gall y cynllun hefyd helpu cyflogwyr sy'n lleihau maint eu busnesau neu sy'n recriwtio staff.[2]

Ariennir ReAct yn rhannol gan gronfeydd Ewropeaidd, ac mae wedi derbyn cyllideb o £5.4 miliwn gan raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (cyllideb genedlaethol o £14 miliwn) a £18.7 miliwn o Raglen Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (cyllideb genedlaethol o £23 miliwn).[3]

Ar 9 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, lansiad rhaglen ReAct II a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2011 ac yn disodli y rhaglen ReAct bresennol.

Ceir gwybodaeth am y rhaglen ReAct bresennol a'r rhaglen ReAct II, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, isod.

[1] Datganiad i'r wasg, Llywodraeth Cymru, *ReAct – Ymateb Cadarnhaol*, 15 Hydref 2008.
[2] Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct) [fel ar 2 Rhagfyr 2010]
[3] ESF Regional Competitiveness & Employment Programme 2007-2013: List of EU Beneficiaries as at 07/10/2010, ac ESF Convergence Programme 2007- 2013 Approved Projects: List of EU Beneficiaries as at 04/11/2010 [fel ar 2 Rhagfyr 2010].

## 2. ReAct: Unigolion

Mae cymorth ar gael i unigolion cymwys fel y gallant gynyddu eu sgiliau a goresgyn unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae tair elfen i'r cynllun ReAct i unigolion, sef:

- Cymorth gyda Recriwtio a Hyfforddiant;
- Grant Dewisol - Hyfforddiant Galwedigaethol
- Grant Dewisol - Amrywiol[4].

Mae Gyrfa Cymru yn asesu anghenion hyfforddiant pob un o'r ymgeiswyr ac yn rhoi cyngor i unigolion am gyrsiau hyfforddi addas sy'n cael eu cynnal mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt. Mae'r cymorth ariannol canlynol ar gael i gynorthwyo gyda'r rhan hon o'r cynllun cymorth:

- telir yr holl gostau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â dysgu sgiliau newydd (hyd at gyfanswm o £2,500)
- mae modd cael cymorth i dalu am offer arbennig sy'n angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'r hyfforddiant
- ad-delir unrhyw gostau teithio er mwyn cynorthwyo'r unigolyn i gyrraedd y lleoliad lle cynhelir yr hyfforddiant
- telir costau llety dros nos, lle bynnag bo hynny'n briodol
- mae modd cael cymorth i dalu am ddeunyddiau sy'n angenrheidiol fel bod yr unigolyn yn gallu ymgymryd â'r hyfforddiant
- ad-delir unrhyw gostau gofal plant (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a thelerau).[5]

Mae'r cynllun ReAct ar gael i:

- unigolion sydd wedi cael eu gwneud yn ddi-waith yn ystod y chwe mis diwethaf oherwydd diswyddiadau, ac ar hyn o bryd yn ddi-waith ac heb fod mewn swydd barhaol am chwe wythnos neu fwy ers cael eu diswyddo; neu
- unigolion sydd o dan rybudd diswyddo; ac
- unigolion sydd heb ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei ariannu gan sefydliad cyhoeddus ers cael eu diswyddo, gan gynnwys y gyfres o raglenni dysgu seiliedig ar waith.[6]

---

[4] Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct) [fel ar 2 Rhagfyr 2010].
[5] Ibid.
[6] Ibid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen, sef *Canllawiau ReAct: gwybodaeth i'ch helpu i gwblhau eich cais*, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am gymhwysedd. Mae'r canllawiau'n nodi bod cymorth ar gael os ydych yn byw yng Nghymru ar ddyddiad cyhoeddi'r notis ar gyfer diswyddiad, er y caiff cais ei ystyried os ydych yn byw y tu allan i Gymru ar y dyddiad hwnnw ond yn cael eich diswyddo o gwmni yng Nghymru. Rhaid i unigolion wneud cais tra byddant yn dal i weithio'r notis am ddiswyddiad, ac unwaith y byddant yn dod yn ddiwaith, dylent geisio cyngor gan y swyddfa Cyngor Sgiliau Dysgu. Rhaid i unigolion fod yn 25 oed neu'n hŷn, er y bydd y rheini sy'n iau na 25 yn cael eu hystyried os nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Fargen Newydd.

Dim ond am chwe mis y mae unigolion yn gymwys i dderbyn cyllid wedi iddynt gael eu diswyddo, ac ni fyddant yn gymwys i dderbyn arian gan ReAct os ydynt yn dechrau gweithio i gyflogwr arall cyn gwneud cais am ReAct.[7]

Ceir rhagor o wybodaeth drwy ddilyn y linc hwn:

Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct). Sut i gyflwyno cais

[7] Ydych chi'n gymwys? [fel ar 26 Ionawr 2011]

## 3. ReAct: Cyflogwyr

Mae'r cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun ReAct i gyflogwyr sy'n cynnig swydd i rywun sydd newydd golli'u swydd, fel a ganlyn:

Mae **cefnogaeth recriwtio i gyflogwyr** yn ariannu cyflogwyr sy'n recriwtio unigolion sydd wedi colli'u swyddi yn y chwe mis diwethaf. Mae'r cynllun yn cynnig hyd at £2,080 i'r cyflogwr, dros bedwar taliad, i dalu costau cyflog.[8]

Gyda **chefnogaeth hyfforddi i gyflogwr** mae'r cynllun ReAct yn talu 70 y cant o unrhyw gostau hyfforddi hyd at uchafswm o £1,000.

Bydd y swm a gaiff ei dalu wedi'i seilio ar y costau y mae'n rhaid i gyflogwr eu talu tuag at ddarparu'r hyfforddiant, yn unol â'r amodau hyn:

Rhaid i'r hyfforddiant fod yn berthnasol i'r swydd a bod wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r hyfforddiant wella sgiliau'r unigolyn.

Lle bo'n bosibl, rhaid i'r cyflogwr wneud pob ymdrech i ddarparu hyfforddiant hyd lefel 2 yr NVQ (neu gyfatebol) o leiaf.[9]

Gall **cefnogaeth ymgynghorol i recriwtio** gynnwys cyngor am faterion fel y farchnad waith leol a'r sgiliau sydd ar gael. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yma:

Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct). Cefnogaeth Ymgynghorol i Recriwtio

Gall cyflogwyr ddewis rhwng gwneud cais am gefnogaeth recriwtio yn unig neu am gefnogaeth recriwtio a hyfforddi. Gellir ond defnyddio cefnogaeth hyfforddi i gyflogwyr ar y cyd â chefnogaeth recriwtio i gyflogwyr.

Mae Cefnogaeth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr ar gael yn yr achosion hyn:

- Os yw eich busnes yn ehangu ac os yw'r swydd yn newydd; neu
- Os ydych angen rhywun i lenwi swydd wag ac mae'r rheswm am hynny'n gyfiawn;
- Os yw'r swydd am o leiaf 16 awr bob wythnos;
- Os oes disgwyl i'r swydd bara am o leiaf 12 mis;

---

[8] Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct) [fel ar 20 Rhagfyr 2010].

[9] Ibid.

- Os nad yw'r swydd wedi'i chefnogi gan gyllid o unrhyw gronfa Ewropeaidd neu gyhoeddus arall; ac
- Os nad yw eich busnes wedi cyrraedd y trothwy 'de minimis' ar gyfer rheolau Cymorth Gwladol.[10]

Byddwn yn gwrthod cais am gyllid gan unigolyn a allai fod yn gymwys i'w dderbyn fel arall yn yr achosion hyn:

- Os yw'r unigolyn wedi dechrau gweithio i'r busnes cyn i'r cais am gyllido ReAct gael ei gymeradwyo;
- Os yw'r unigolyn wedi gweithio mewn swydd o unrhyw fath gyda thâl yn ddi-dor am chwe wythnos neu fwy yn ystod y chwe mis cyn gwneud cais am gefnogaeth; neu
- Os yw'r unigolyn wedi derbyn unrhyw hyfforddiant sydd wedi'i gyllido gan gyllid cyhoeddus, gan gynnwys rhaglenni Dysgu yn y Gwaith, ers cael ei ddiswyddo.

Mae gwybodaeth a chymorth ar gael i gwmnïau sy'n lleihau eu busnesau, yn y linc hwn: Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct): Yn lleihau eich busnes?

Mae rhai astudiaethau achos gan gyflogeion ar sut mae'r cynllun yn gweithio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct). Astudiaethau Achos Cyflogeion.

[10] Mae rheol *de minimis* yn ymwneud â chymorth a roddir i fenter sydd o dan drothwy penodol ac iddo amodau penodol. Nid yw'n cael ei ddiffinio fel Cymorth Gwladol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd gan y bernir nad yw'n effeithio ar fasnach nac yn amharu ar gystadleuaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllawiau hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd: Vademecum: Community law on state aid

## 4. ReAct II

Ar 9 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, lansiad rhaglen ReAct II a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2011 ac yn disodli'r rhaglen ReAct bresennol:

> Mae'r rhaglen newydd yn newid pwyslais o hyfforddiant i ddiweddaru sgiliau gweithwyr di-waith i strwythur cymorth gwell er mwyn annog mwy o gwmnïau i gyflogi pobl sydd wedi colli'u swyddi, a chreu swyddi.
>
> Er mwyn gwneud hyn, byddaf yn cynyddu'r cymhorthdal cyflogau sydd ar gael i gyflogwyr sy'n recriwtio person di-waith, cyn belled â bod y swydd yn cynnig o leiaf 25 awr yr wythnos. Bydd y cymhorthdal yn cynyddu o £2,080 i £3,000 a bydd yn parhau i gael ei dalu yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflogaeth. Rwy'n cadw'r uchafswm cyfraniad o £1,000 tuag at gostau hyfforddi gweithwyr newydd, a byddwn ni'n cyfrannu 50% yn hytrach na 70%. £1500 fydd y cymhorthdal i gyflogwyr sy'n recriwtio gweithiwr di-waith yn rhan amser, rhwng 16 a 24 awr yr wythnos. Yn olaf, £1,500 fydd uchafswm y grant hyfforddiant galwedigaethol i unigolion, yn hytrach na'r £2,500 sydd ar gael ar hyn o bryd drwy ReAct.[11]

## 5. ReAct: data

Mae swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a ganlyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau am y cynllun ReAct:

---

[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Lesley Griffiths (Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau), *Datblygu ReAct II*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 9 Rhagfyr 2010. http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/101209act/?lang=cy [fel ar 20 Rhagfyr 2010].

**Ystadegau ReAct rhwng 01/10/08 a 30/09/10: Darpariaeth yn ôl Ardal Awdurdod Unedol (AU)**

| | Nifer yn cychwyn hyfforddiant galwedigaethol ReAct (UNIGOLION) | Cychwyn cymhorthdal cyflog ReAct (CYFLOGWYR) | Nifer yn gadael hyfforddiant ReAct | Gwariant ymroddedig gan ReAct | Gwariant ReAct hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 593 | 107 | 583 | £1,244,190 | £974,866 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,235 | 149 | 1,120 | £2,314,086 | £1,813,169 |
| Caerffili | 1,433 | 131 | 1,221 | £2,861,946 | £2,242,434 |
| Caerdydd | 1,503 | 242 | 1,046 | £3,229,073 | £2,530,090 |
| Sir Gaerfyrddin | 969 | 104 | 565 | £1,884,148 | £1,476,294 |
| Ceredigion | 105 | 44 | 37 | £189,524 | £148,498 |
| Conwy | 281 | 61 | 144 | £459,000 | £359,642 |
| Sir Ddinbych | 287 | 49 | 109 | £560,202 | £438,938 |
| Sir y Fflint | 749 | 96 | 563 | £1,271,330 | £996,131 |
| Gwynedd | 267 | 74 | 134 | £496,441 | £388,980 |
| Ynys Môn | 261 | 60 | 79 | £567,645 | £261,505 |
| Merthyr Tudful | 407 | 67 | 323 | £805,372 | £631,037 |
| Sir Fynwy | 283 | 49 | 175 | £587,732 | £460,509 |
| Castell-nedd Port Talbot | 985 | 129 | 736 | £1,958,383 | £1,534,461 |
| Casnewydd | 739 | 110 | 418 | £1,431,364 | £1,121,524 |
| Tu allan i Gymru | 156 | 8 | 109 | £88,465 | £244,713 |
| Sir Benfro | 861 | 59 | 479 | £1,507,939 | £1,181,521 |
| Powys | 472 | 143 | 192 | £929,541 | £728,328 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,516 | 181 | 1,218 | £3,020,725 | £2,363,387 |
| Abertawe | 948 | 170 | 715 | £1,828,027 | £1,432,320 |
| Bro Morgannwg | 680 | 80 | 505 | £1,469,053 | £1,151,054 |
| Tor-faen | 476 | 70 | 335 | £930,738 | £729,267 |
| Wrecsam | 678 | 77 | 536 | £1,170,005 | £916,739 |
| **Cyfanswm AU** | **15,884** | **2,260** | **11,342** | **£30,804,929** | **£24,125,407** |

**Ffynhonnell:** Swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau

**Ystadegau ReAct rhwng 01/10/08 a 30/09/10: Nifer sy'n cychwyn a gadael hyfforddiant ReAct a gwariant**

| | Nifer yn cychwyn hyfforddiant galwedigaethol ReAct (UNIGOLION) | Cychwyn cymhorthdal cyflog ReAct (CYFLOGWYR) | Nifer yn gadael hyfforddiant ReAct | Cyfanswm y nifer sy'n derbyn hyfforddiant ReAct |
|---|---|---|---|---|
| O'r hen ragle | | | | **2,368** |
| Hydref 2008 | 411 | 29 | 271 | 2,537 |
| Tacchwedd 2008 | 469 | 36 | 227 | 2,815 |
| Rhagfyr 2008 | 320 | 20 | 240 | 2,915 |
| Ionawr 2009 | 973 | 98 | 240 | 3,746 |
| Chwefror 2009 | 762 | 112 | 722 | 3,898 |
| Mawrth 2009 | 1,082 | 235 | 638 | 4,577 |
| Ebrill 2009 | 1,052 | 145 | 606 | 5,168 |
| Mai 2009 | 988 | 108 | 324 | 5,940 |
| Mehefin 2009 | 1,016 | 118 | 366 | 6,708 |
| Gorffennaf2009 | 903 | 154 | 405 | 7,360 |
| Awst 2009 | 802 | 191 | 595 | 7,758 |
| Medi 2009 | 869 | 111 | 596 | 8,142 |
| Hydref 2009 | 709 | 101 | 691 | 8,261 |
| Tachwedd 2009 | 727 | 78 | 656 | 8,410 |
| Rhagfyr 2009 | 498 | 69 | 638 | 8,339 |
| Ionawr 2010 | 529 | 89 | 501 | 8,456 |
| Chwefror 2010 | 577 | 105 | 539 | 8,599 |
| Mawrth 2010 | 599 | 98 | 662 | 8,634 |
| Ebrill 2010 | 521 | 110 | 506 | 8,759 |
| Mai 2010 | 436 | 71 | 448 | 8,818 |
| Mehefin 2010 | 406 | 49 | 481 | 8,792 |
| Gorffennaf 2010 | 403 | 41 | 428 | 8,808 |
| Awst 2010 | 425 | 52 | 333 | 8,952 |
| Medi 2010 | 407 | 40 | 229 | 9,170 |
| **CYFANSWM** | **15,884** | **2,260** | **11,342** | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm gwariant ReAct (rhwng 01/10/08 a 30/09/10): | £24,125,407 |
| Gwariant ymroddedig gan ReAct yn ogystal â'r uchod (rhwng 01/10/08 a 30/09/10): | £6,679,522 |

**Ffynhonnell:** Swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau

**Ystadegau ReAct rhwng 01/10/08 a 30/09/10: Darpariaethau yn ôl etholaethau'r Cynulliad**

| | Nifer yn cychwyn hyfforddiant galwedigaethol ReAct (UNIGOLION) | Cychwyn cymhorthdal cyflog ReAct (CYFLOGWYR) | Gwariant ymroddedig gan ReAct | Gwariant ReAct hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| Aberafan | 562 | 73 | £1,137,204 | £917,095 |
| Aberconwy | 146 | 19 | £224,169 | £163,368 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 382 | 99 | £729,102 | £546,914 |
| Arfon | 159 | 101 | £429,928 | £213,382 |
| Blaenau Gwent | 584 | 77 | £1,151,064 | £965,461 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 202 | 60 | £435,650 | £247,606 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 607 | 97 | £1,226,611 | £994,969 |
| Caerffili | 706 | 58 | £1,336,790 | £1,240,326 |
| Canol Caerdydd | 316 | 44 | £664,305 | £530,416 |
| Gogledd Caerdydd | 360 | 38 | £713,924 | £563,374 |
| De Caerdydd a Phenarth | 580 | 87 | £1,177,441 | £960,699 |
| Gorllewin Caerdydd | 390 | 29 | £773,942 | £640,507 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 264 | 46 | £519,225 | £356,537 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 398 | 24 | £727,298 | £581,845 |
| Ceredigion | 111 | 33 | £239,599 | £135,304 |
| De Clwyd | 354 | 14 | £573,096 | £505,396 |
| Gorllewin Clwyd | 157 | 19 | £292,188 | £211,793 |
| Cwm Cynon | 480 | 73 | £957,727 | £834,771 |
| Delyn | 370 | 61 | £671,166 | £489,392 |
| Dwyfor Meirionydd | 103 | 13 | £182,156 | £128,129 |
| Gŵyr | 336 | 41 | £651,145 | £471,185 |
| Islwyn | 634 | 63 | £1,257,480 | £1,050,471 |
| Llanelli | 626 | 179 | £1,220,672 | £704,298 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 516 | 63 | £1,014,445 | £805,592 |
| Mynwy | 265 | 24 | £511,762 | £391,519 |
| Sir Drefaldwyn | 267 | 94 | £625,725 | £376,014 |
| Castell-nedd | 426 | 62 | £863,475 | £634,030 |
| Dwyrain Casnewydd | 352 | 16 | £641,732 | £584,260 |
| Gorllewin Casnewydd | 442 | 68 | £870,103 | £713,514 |
| Ogwr | 779 | 127 | £1,512,143 | £1,292,730 |
| Tu allan i Gymru | 156 | 8 | £88,465 | £244,713 |
| Pontypridd | 479 | 66 | £963,934 | £792,804 |
| Preseli Sir Benfro | 549 | 19 | £966,880 | £675,529 |
| Rhondda | 419 | 33 | £782,015 | £677,154 |
| Dwyrain Abertawe | 339 | 56 | £679,110 | £460,201 |
| Gorllewin Abertawe | 265 | 40 | £513,749 | £387,702 |
| Tor-faen | 426 | 76 | £858,324 | £689,825 |
| Dyffryn Clwyd | 224 | 26 | £412,449 | £318,199 |
| Bro Morgannwg | 536 | 31 | £1,070,754 | £950,772 |
| Wrecsam | 356 | 43 | £570,337 | £416,106 |
| Ynys Mon | 261 | 60 | £567,645 | £261,505 |
| **Cyfanswm AU** | **15,884** | **2,260** | **£30,804,929** | **£24,125,407** |

**Ffynhonnell:** Swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau

## 6. ProAct

Roedd ProAct yn 'becyn o gefnogaeth ariannol i helpu busnesau sy'n economaidd hyfyw i ymdopi â'r dirywiad economaidd ac i ddefnyddio cyfnodau tawel ar gyfer gwella sgiliau'r staff fel eu bod yn barod ar gyfer yr amser pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella.'[12]

Roedd ar gael i fusnesau a oedd wedi cyflwyno gweithio'n rhan amser ac mewn perygl o orfod diswyddo gweithwyr. Yn fras, roedd yn cynnig:

- hyd at £2,000 i bob unigolyn i helpu gyda chostau hyfforddi
- cymhorthdal cyflog o hyd at £2,000 (ar gyfradd o £50 y dydd) i bob unigolyn ar gyfer y cyfnod hyfforddi (hyd at 12 mis)[13]

Mewn Adroddiad ar Benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mehefin 2010, cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau ddod â phanel ProAct i ben ar 30 Mehefin 2010. Cytunwyd hefyd y byddai'r arian sy'n weddill o dan gynllun ProAct yn cael ei drosglwyddo i gynllun olynol ProAct, **ProAct - Sgiliau Twf Cymru**.

Mae swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau wedi darparu gwybodaeth i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau am gynllun ReAct. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â ProAct yn unig ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth am ProAct – Sgiliau Twf Cymru. Ceir data ar wahân am ProAct – Sgiliau Twf Cymru yn adran 7 isod.

[12] ProAct - Ariannu i wella sgiliau yn ystod y dirywiad economaidd.

[13] ProAct – Ariannu i wella sgiliau yn ystod y dirywiad economaidd, [fel ar 23 Rhagfyr 2010]

**Dadansoddiad o geisiadau am ProAct 27 Hydref 2010**

| Awdurdod Unedol | Ceisiasua a gymeradwywyd | Cyllideb a ymrwymwyd | Hyfforddiant a ymrwymwyd | Mifer y cyflogeion a dderbyniodd gymorth |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5 | £180,381 | £95,531 | 62 |
| Blaenau Gwent | 13 | £1,589,926 | £900,114 | 570 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | £246,820 | £149,795 | 83 |
| Caerffili | 9 | £1,926,798 | £1,159,156 | 819 |
| Caerdydd | 21 | £1,437,583 | £682,534 | 495 |
| Sir Gaerfyrddin | 19 | £2,783,871 | £1,472,757 | 773 |
| Ceredigion | 1 | £31,680 | £15,680 | 8 |
| Conwy | 3 | £45,086 | £28,036 | 24 |
| Sir Ddinbych | 9 | £1,485,584 | £944,260 | 594 |
| Sir y Fflint | 8 | £1,556,090 | £1,010,422 | 752 |
| Gwynedd | 8 | £166,814 | £110,714 | 103 |
| Merthyr Tudful | 6 | £1,174,301 | £583,340 | 525 |
| Sir Fynwy | 5 | £539,453 | £259,028 | 167 |
| Castell-nedd Port Talbot | 18 | £3,214,266 | £2,413,887 | 1,719 |
| Casnewydd | 10 | £1,506,129 | £900,528 | 552 |
| Sir Benfro | 10 | £610,252 | £301,386 | 172 |
| Powys | 17 | £1,828,864 | £950,339 | 523 |
| Rhondda Cynon Taf | 22 | £2,728,672 | £1,416,374 | 796 |
| Abertawe | 31 | £2,129,268 | £147,628 | 710 |
| Bro Morgannwg | 11 | £865,170 | £486,070 | 729 |
| Tor-faen | 6 | £147,021 | £70,498 | 42 |
| Wrecsam | 11 | £974,365 | £554,090 | 417 |
| **TOTALS** | **250** | **£27,168,394** | **£14,652,167** | **10,635** |

**Ffynhonnell:** Swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau

## 7. ProAct – Sgiliau Twf Cymru

**ProAct – Sgiliau Twf Cymru** yw 'pecyn cymorth ariannol a'i fwriad yw cynorthwyo cwmnïau Cymru i dyfu trwy ariannu hyfforddiant mewn sgiliau lefel uwch neu mewn technoleg newydd'.[14]

Mae £3,000 y person ar gael, ar gyfartaledd, er mwyn talu am hyfforddi gweithwyr mewn sgiliau lefel uwch ac mewn technoleg newydd 'a fydd yn cynorthwyo'n uniongyrchol i achosi twf - mewn trosiant, elw ac/neu gyflogaeth.' Mae ar gael i gwmnïau sy'n tyfu ac sy'n gallu dangos sut y bydd yr arian yn eu cynorthwyo i dyfu, neu gwmnïau sydd wedi dweud yn bendant bod ganddynt gyfle aruthrol i dyfu ac mae arnynt angen hyfforddiant er mwyn manteisio arno. Mae'r arian ar gael i '[g]wmnïau na fyddent fel arall wedi gallu talu am yr hyfforddiant hwn, na'i gynnal cyn gynted ag y byddent wedi dymuno ei wneud'.

Mae meini prawf y cymhwyster fel a ganlyn, a gellir cyflwyno ceisiadau o 1 Ebrill 2010 tan 31 Mawrth 2011:

Twf rhagweledig yn ystod y 12 mis nesaf yn UN o'r canlynol:

- Cynnydd o 10 y cant mewn trosiant
- Cynnydd o 10 y cant mewn elw
- O leiaf 10 o weithwyr ychwanegol yn cael eu cyflogi

Mae'r cynllun yn un dewisol[15] ac mae *Gwiblen ProAct – Sgiliau Twf Cymru* Llywodraeth Cymru yn cynghori y rhai sydd am ymgeisio neu am gael rhagor o wybodaeth i gysylltu â llinell frys Busnes a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar 0845 60 661 60 neu eu Rheolwyr Perthynas yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys gwybodaeth fanylach am y broses ymgeisio, ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru: *ProAct – Sgiliau Twf Cymru, ProAct – Sgiliau Twf Cymru, Cwestiynau cyffredin.*

Ceir data am ProAct – Sgiliau Twf Cymru isod:

[14] ProAct - Sgiliau Twf Cymru [fel ar 2 Rhagfyr 2010]
[15] Cwestiynau cyffredin [fel ar 2 Rhagfyr 2010].

**Dadansoddiad o geisiadau am Sigliau Twf Cymru 6 Rhagfyr 2010**

| Awdurdod Unedol | Ceisiadau a gymeradwywyd | Cyllideb a ymrwymwyd (£) | Nifer y cyflogeion a dderbyniodd gymorth |
|---|---|---|---|
| Ynys Mon | 0 | £0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | £0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | £885,839 | 661 |
| Caerffili | 1 | £46,545 | 16 |
| Caerdydd | 3 | £181,855 | 368 |
| Caerfyrddin | 0 | £0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | £0 | 0 |
| Conwy | 0 | £0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | £0 | 0 |
| Sir y Fflint | 2 | £381,006 | 257 |
| Gwynedd | 1 | £24,470 | 20 |
| Merthyr | 1 | £46,204 | 42 |
| Sir Fynwy | 0 | £0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | £176,080 | 61 |
| Casnewydd | 3 | £964,306 | 440 |
| Sir Benfro | 1 | £22,710 | 8 |
| Powys | 0 | £0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 | £259,760 | 114 |
| Abertawe | 3 | £198,780 | 67 |
| Torfaen | 0 | £0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | £0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | £0 | 0 |
| **Cyfanswm AU** | **21** | **£3,187,555** | **2,054** |

**Ffynhonnell:** Swyddfa'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau